WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Jack Straw
Prif Weithredwr
Dinas a Sir Abertawe
Y Ganolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 1 Hydref 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 471A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif ffôn** | 02920 320500 |
| **E-bost** | WalesAuditOffice@WAO.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **6** |

Annwyl Jack

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar unrhyw newidiadau sylweddol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor a sut mae'n mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn cyflwyno crynodeb pellach erbyn diwedd Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi pennu Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13

Yn ddiweddar, gwnaethom gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella gan ddod i'r casgliad ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r amserlenni cyhoeddi a nodwyd a'i fod yn cynnwys yr hyn sy'n ofynnol ac a argymhellir. Cymeradwywyd y cynllun gan y Cyngor ar 24 Mai 2012, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin gan gydymffurfio'n llawn â'r gofynion.

Yn dilyn etholiadau mis Mai, cafwyd newid yn arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor. Mae'r weinyddiaeth newydd wedi cadarnhau ei hamcanion ar gyfer 2012-13 ac mae wrthi'n cysoni ymrwymiadau ei maniffesto ar gyfer yr etholiad â gwaith cynllunio ariannol a gwaith cynllunio gwasanaethau er mwyn iddi allu pennu ei blaenoriaethau a'i hamcanion ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2017.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

## Sefydlwyd rolau newydd i'r Cabinet a threfniadau newydd ar gyfer y Pwyllgor Craffu gan eu cysoni â blaenoriaethau'r Cyngor

Mae'r rolau a bennwyd i'r 10 aelod sy'n rhan o'r Cabinet yn adlewyrchu cyfrifoldebau am themâu allweddol (megis 'gwrth-dlodi' a 'sgiliau dysgu'). Mabwysiadwyd y strwythur thematig er mwyn ceisio osgoi dulliau 'seilo' o feddwl a meithrin dealltwriaeth ehangach o'r portffolio a'i effaith ar fusnes y Cyngor yn gyffredinol.

Y bwriad yw y bydd hyn yn darparu'r fframwaith angenrheidiol ar gyfer cyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor sy'n ymwneud â chynorthwyo oedolion agored i niwed, cynorthwyo a diogelu plant, rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy, gwella canlyniadau dysgu a hyrwyddo cyflogadwyedd ac adfywio.

Symleiddiwyd trefniadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a bydd tri phwyllgor yn canolbwyntio ar 'Bobl', 'Lleoedd' a 'Chymunedau Cryfach, Mwy Diogel'. Byddaf yn cynnal astudiaeth ar drefniadau craffu ledled Cymru ac yn gwahodd aelodau a swyddogion i gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau dysgu yn ddiweddarach eleni.

Sefydlwyd y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, a'r canllawiau statudol cysylltiedig, sy'n nodi nifer o swyddogaethau gorfodol i'w cyflawni. Mae'r Cyngor wedi drafftio Cylch Gorchwyl newydd sydd ar gael ar ffurf lawn ar wefan y Cyngor.

## Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol

Deuthum i'r casgliad yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol a'r Asesiad Gwella Corfforaethol blaenorol bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ac y bydd, gydag arweinyddiaeth glir barhaus, yn parhau mewn sefyllfa dda i ymdrin â'i heriau ariannol.

Ers sawl blwyddyn, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu cynllun ariannol tymor canolig bob blwyddyn fel rhan o gyfres sefydledig o bapurau cyllideb a gymeradwyir gan yr aelodau bob gwanwyn ac a ddefnyddir drwy gydol y flwyddyn. Caiff meysydd risg, fel pwysau ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, eu hamlygu yn y papurau cyllideb ac mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn i alluogi iddo reoli effaith risgiau ac ansicrwydd o'r fath. Mae'r Cyngor wedi dangos, drwy weithredu cynlluniau ariannol tymor canolig dilynol a chyllidebau blynyddol, y gall wneud dewisiadau clir mewn modd amserol er mwyn cynnal ei iechyd ariannol. Bydd angen parhau â'r dull gweithredu hwn wrth i'r Cyngor gynllunio sut i gyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion dros y tymor canolig.

## Mae nifer o'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol wedi cael sylw neu bwriedir gweithio arnynt fel rhan o'r trefniadau llywodraethu newydd

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth ymdrin â'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella. Yn 2011, cyhoeddais argymhellion statudol mewn perthynas â threfniadau'r pwyllgor cynllunio, llywodraethu ac effeithlonrwydd y gwasanaeth cynllunio.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu gwelliannau yn y ffordd y gellir gwerthuso perfformiad y gwasanaeth cynllunio ac mae'n dechrau symud tuag at drefniant diwygiedig ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad. Mae'r gwersi yn deillio o'r ffocws ar y gwasanaeth penodol hwn yn cael eu dysgu a gellir eu rhoi ar waith mewn meysydd eraill. Ar lefel aelodau, mae un cadeirydd bellach yn cadeirio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu Ardal a Rheolaeth a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu gyda'r bwriad o ddarparu cysondeb ac atgyfnerthu'r ffordd y caiff cyfrifoldebau lled-farnwrol yr aelodau eu rhoi ar waith.

Mae gan y Prif Weithredwr a'r uwch aelodau ddealltwriaeth glir o'r materion a disgwylir i adroddiad gael ei gyflwyno i'r aelodau ym mis Hydref a fydd yn rhoi'r cyfle i aelodau wneud penderfyniadau o ran gwendidau yn y trefniadau llywodraethu a godwyd gennyf eisoes. Byddaf yn cyflwyno adroddiad manylach ar y mater hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm ar gyfer yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu yn ystod 2012-13. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen - a gaiff eu diweddaru a'u trafod â'r Cyngor yn rheolaidd – yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym yn bwriadu targedu adnoddau yn ystod asesiad eleni ac yn benodol, sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar brosesau hunanasesu'r Cyngor, gan gynnwys ei adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Steve Barry, Swyddfa Archwilio Cymru, Rheolwr

Sam Spruce, Swyddfa Archwilio Cymru, Arweinydd Archwilio Perfformiad

## Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **1.** Gwella trefniadau cynllunio busnes drwy:<br>• integreiddio gwaith cynllunio gwasanaethau, cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu;<br>• sicrhau eu bod yn ddogfennau gweithredol a gaiff eu diweddaru ar gyfer Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2012-13 a chyllidebau cyfalaf. | Cynlluniau busnes a gaiff eu paratoi gan bob pennaeth gwasanaeth, gyda'r amserlen wedi'i chario ymlaen ar gyfer 2012-13 i gael ei chysoni'n well â chylch y gyllideb.<br>Arweiniodd y broses dysgu gwersi at newidiadau i'r broses dempled o gyflwyno'r Adnodd Tybiaethau Ariannol a dylai mewnbwn gweithdai gan arbenigwyr pwnc helpu gyda meysydd penodol o'r cynllun megis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chynaliadwyedd.<br>Ymarfer cynllunio busnes diweddar 2012-13 oedd yr ail flwyddyn y cynhaliwyd y broses fwy integredig hon. Gyda phob cylch blynyddol, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r broses ymsefydlu'n well. |
| **2.** Ymgysylltu â phartneriaid i nodi canlyniadau a rennir, a datblygu mesurau o lwyddiant a dangosyddion perfformiad. | Cyflwyno Adnodd Asesu Partneriaeth Nuffield sy'n cael ei dreialu yn y gwasanaethau cyfreithiol a rennir. Gwerthuso trefniadau llywodraethu ac effeithiolrwydd.<br>Defnyddiodd dulliau atebolrwydd poblogaeth Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) i ddatblygu canlyniadau a mesurau a rennir â phartneriaid sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Caiff wedyn ei werthuso fel model.<br>Datblygu'r broses flynyddol ar gyfer adolygu'r strategaeth gymunedol ymhellach er mwyn meithrin perchenogaeth a rennir o flaenoriaethau partneriaid. |
| **3.** Atgyfnerthu atebolrwydd am ymddygiad aelodau. | Mae'r Ombwdsmon yn ymgynghori â chyrff llywodraethu/swyddogion eraill i gael eu barn ar gynigion Abertawe.<br>Aros am ganlyniad y broses. |
| **4.** Ymdrin â'r argymhelliad statudol yn gofyn am gynllun gweithredu yn nodi'r ymateb i'n hargymhellion. | Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn hynt y cynllun gweithredu mewn cyfarfodydd misol gyda'r rheoleiddwyr, yn cynnal gweithgareddau arsylwi wedi'u trefnu mewn cyfarfodydd pwyllgor ac rydym yn aros am adroddiad y Prif Weithredwr cyn pennu cwmpas ein gwaith prosiect. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **5.** Mae angen gwaith cynllunio adnoddau dynol tymor hwy er mwyn ategu'r broses gwneud penderfyniadau strategol yn well gan gynnwys datblygu:<br>• proses ar gyfer rhoi cymwyseddau wedi'u diweddaru ar waith fel rhan o'r broses arfarnu perfformiad drwy'r Cyngor cyfan;<br>• strategaeth adnoddau dynol 2012-13;<br>• cynllun/strategaeth y gweithlu ar gyfer 2012-13. | Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol, Strategaeth Adnoddau Dynol, ac wrth ddatblygu strwythur cyflog a graddio newydd. |
| **6.** Egluro'r hyn y mae'r Cyngor yn anelu at ei gyflawni drwy ei raglen gwella a'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn ei gyflawni, megis:<br>• cyfleu'r canlyniadau/effaith ar fywydau pobl i'r cyhoedd;<br>• mesurau perfformiad perthnasol wedi'u teilwra ac sy'n hawdd i'w deall yn cyfrannu at adroddiad blynyddol mwy cytbwys ac ystyrlon. | Model/proses newydd ar gyfer llunio Amcanion Gwella a mesurau a dargedwyd i fod ar waith ar gyfer 2013-14. |